

**Papur WFAC 20/01/03**  
**I'w drafod**

**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr**

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig yn cyfeirio at faterion a nodwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig). Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n berthnasol i Gymru ac yn sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru.
2. Bydd Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau i:
  - **nodir** diweddariad
  - **gwahodd** y Cyfarwyddwr i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach

Swyddog Cyswllt yn ASB Cymru: Lucy Edwards  
[lucy.edwards@food.gov.uk](mailto:lucy.edwards@food.gov.uk)

## **Papur WFAC 20/01/03**

### **I'w drafod**

### **Diweddariad gan y Cyfarwyddwr**

## **1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 18 Medi 2019.**

1.1. Fe gafodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 19/09/03) sydd ar gael drwy: [https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-19-09-03-ce-report-to-board-final\\_0.pdf](https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-19-09-03-ce-report-to-board-final_0.pdf)

## **2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru**

### Ymgysylltu'n allanol

2.1. Rwyf wedi bod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru gyfarfod ddiwethaf mewn sesiwn agored ar 24 Hydref 2019:

- 4 Tachwedd – Cynhadledd ESRC
  - Cynhaliwyd Symposiwm Gwyddor Gymdeithasol ESRC yr ASB yng Nghaerdydd – bwyd, arloesi a defnyddiwr y dyfodol. Roedd cynrychiolaeth dda iawn o'r byd academiaidd yng Nghymru.
- 8 Tachwedd – Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
  - Fe wnes i gyfarfod â Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i feithrin ein perthynas i barhau i ehangu ein sianeli ar gyfer cyfleu ein negeseuon i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
- 11 Tachwedd – Cynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Merthyr Tudful – Swyddogion DPPW
  - Mae hyn yn rhan o'm rhaglen reolaidd o gyfarfodydd gydag arweinwyr amgylcheddol iechyd cyhoeddus awdurdodau lleol i drafod ein rhaglenni gwaith.
- 19 Tachwedd – Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru.
  - Mae hyn yn rhan o'm gwaith i feithrin a chryfhau cysylltiadau ar draws Llywodraeth Cymru lle mae meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, ac i adeiladu gwytnwch.
- 27 Tachwedd – Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd Integredig Iechyd y Cyhoedd Cymru
  - Mae hyn yn rhan o'm rhaglen reolaidd o gyfarfodydd gydag iechyd y cyhoedd yn arwain at gynnal perthnasoedd a thrafod ein rhaglenni gwaith.
- 27 Tachwedd – Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth
  - Cyfarfod i drafod safonau rhannu data a data rhyng-lywodraethol, ac i ddysgu am arfer da.
- 3 Rhagfyr – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru
  - Mae hyn yn rhan o'r rhaglen reolaidd o gyfarfodydd i drafod gweithgarwch yr ASB yng Nghymru.
- 5 Rhagfyr – Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

- Cyfarfod â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i drafod cynllun yr ASB yng Nghymru.
- 17 Rhagfyr – Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd
  - Rwy'n darparu mewnbwn yr ASB i grŵp cynghori'r Prif Swyddog Meddygol.
- 17 Rhagfyr – Swyddfa Archwilio Cymru
  - Fe wnaethom drafod y cysylltiadau rhwng y rhaglenni archwilio rhwng yr ASB yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn ni hefyd yn cael cyfarfodydd dilynol i rannu gwybodaeth ac arferion gwaith ar lefel weithredol, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu staff.
- 20 Rhagfyr – Arolygiaeth Gofal Cymru
  - Gwnaethom drafod meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, gan gynnwys eglurhad a chefnogaeth ynghylch cymhwyso'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn safleoedd gofal, a rhannu ein profiadau fel rheoleiddwyr sy'n gweithio yng Nghymru.

### **Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd**

- 2.2 Hoffwn longyfarch Nina Purcell, cyn Gyfarwyddwr RDD, ROF a Chymru, sydd wedi cael CBE am wasanaethau i sicrhau diogelwch defnyddwyr yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.
- 2.3 Hoffwn ni hefyd longyfarch Chris Brereton, cyn Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru sydd wedi cael OBE am ei wasanaethau i lechyd yr Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru
- 2.4 Llongyfarchiadau hefyd i gyn-aelod Bwrdd yr ASB, Laura Sandys, a gafodd CBE am ei gwasanaethau i Bolisi Ynni'r Deyrnas Unedig.

### **Diweddariad swyddfa**

- 2.5 Bydd Alice Teague, Pennaeth Polisi Rheoleiddio a Phartneriaethau Awdurdod Lleol, yn dechrau ar swydd dwy flynedd o hyd yn Llywodraeth Cymru fel Pennaeth Rhaglenni (Bioamrywiaeth), yn Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol. Gwerthfawrogir ansawdd a chysondeb gwaith Alice ar draws yr ASB. Hoffwn ddiolch iddi yn bersonol am ei chefnogaeth a'i chyfraniadau, a dymunaf yn dda iddi gyda'i her nesaf.

### **Llawlyfr Cyfeirio Safonau Bwyd Newydd (e-Lyfr) ar gyfer Awdurdodau Lleol**

- 2.6 Mewn ymateb i adborth gan swyddogion ar yr angen am 'Lawlyfr Cyfeirio Safonau Bwyd' ar gyfer Lloegr, gwnaethom benodi Safonau Masnach De-Orllewin Lloegr (TSSW) i ddatblygu a chyflenwi'r llawlyfr. Penodwyd TSSW hefyd i adolygu a diweddarau llawlyfrau presennol Cymru a Gogledd Iwerddon.
- 2.7 Ar ôl treialu Llawlyfr Cyfeirio Safonau Bwyd yn llwyddiannus gyda detholiad o swyddogion awdurdodau lleol, rydym ni bellach yn lansio'r llawlyfr ar ffurf e-Lyfr. Mae'r llawlyfr yn cynnwys dolenni gwe i ddeddfwriaeth berthnasol, adnoddau defnyddiol a chanllawiau atodol. Mae'r e-Lyfrau yn gwbl ryngweithiol a gall swyddogion sy'n cyflenwi rheolaethau swyddogol safonau bwyd gael mynediad

atynt trwy'r un llwyfan Moodle, a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynnal fersiynau e-Lyfr o'r Cod Ymarfer (y Cod) a'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Mae gan tua 400 o ddefnyddwyr awdurdodau lleol fynediad at y Cod a'r Canllawiau Ymarfer trwy Moodle.

## **Ariannu ar gyfer Paratodau Ymadael â'r UE Awdurdodau Lleol**

2.8 Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu achos dros gael cyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi ar gyfer ymadael â'r UE. Mae'r achos hwn bellach wedi'i gymeradwyo a gwahoddwyd awdurdodau lleol i gynnig am arian gan roi manylion y gwaith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu rheolaethau swyddogol bwyd a bwyd anifeiliaid y maent wedi a/neu y mae angen iddynt eu cyflawni yn 2019/20, i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r UE.

## **Hyfforddiant Clefydau Trosglwyddadwy yr ASB, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) ac Iechyd y Cyhoedd Cymru (ICC) ar gyfer Awdurdodau Lleol**

2.9 Mae'r ASB wedi gweithio gyda ICC a CIEH i ddatblygu a darparu gweithdy ar gyfer prif swyddogion hylendid bwyd a chlefydau trosglwyddadwy i archwilio ymateb Cymru i achos cymhleth mewn sawl gwlad sy'n gysylltiedig â bwyd. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ym mis Tachwedd a oedd yn anelu at wella dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau partneriaid allweddol sy'n ymwneud ag ymateb i achos sylweddol sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynorthwyo i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth ymhlith partneriaid allweddol i hwyluso cydweithio a chynyddu gallu partneriaid yng Nghymru i nodi, ymchwilio, cynnwys ac ymateb i achos sylweddol sy'n gysylltiedig â bwyd.

## **Ymgynghoriad ar Offerynnau Statudol Gwlad Tarddiad**

2.10 Bydd yr ASB yng Nghymru yn ymgynghori ddechrau mis Ionawr ar Offerynnau Statudol yng Nghymru i weithredu gofynion Rheoliadau Gwlad Tarddiad newydd yr UE (Rheoliad (CE) 2018/775) a ddaw i rym ar 1 Ebrill. Er bod Gweinidogion Cymru eisoes wedi cymeradwyo ymgynghoriad byrrach 8 wythnos, ni ddechreuodd hyn oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad. Cyflwynwyd cais am gydsyniad Gweinidogol i ymgynghoriad byrrach 4 wythnos ar 2 Ionawr, a chytunodd y Gweinidog ar 14 Ionawr.

## **3. Cyfarwyddwr Cymru yn Bwrw Golwg Ymlaen**

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ar 9 Ebrill 2020, rydw i wedi ymrwymo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 23 Ionawr – Cyfarfod â 'Which?' i drafod gweithredu'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol
- 27 Ionawr – cyfarfod dilynol gyda Swyddfa Archwilio Cymru
- 29 Ionawr – ail gyfarfod Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Cyfraith Bwyd Cymru
- 4 Chwefror – cyfarfod ag Awdurdod Lleol Wrecsam

- 5 Chwefror – cyfarfod ag Awdurdodau Lleol Sir y Fflint a Sir Ddinbych
- 18 Chwefror – ymweliad â Phrif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Fynwy

**Nathan Barnhouse**

Cyfarwyddwr, ASB yng Nghymru  
Ionawr 2020